## BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

29 GORFFENNAF 2021, 2.30PM

### Drwy Teams

# Cofnodion

### Yn bresennol

Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Joanne Silverthorne (JS), Cynrychiolydd Gofalwyr
Alun Williams (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (CyngTH), Cyngor Sir Penfro
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Gareth John (CyngGJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Elaine Lorton (EL), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sian Howys (SH), Cyngor Sir Ceredigion
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr

Hefyd yn bresennol:

Martyn Palfreman (MJP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Michael McClymont (MM), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Rebecca Llewhellin (RL), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru,
Kevin Pett (KP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Rhan)
Alison Bishop (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Rhan)

### Ymddiheuriadau

Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Gaynor Toft (GT), Cyngor Sir Penfro
James Tyler (JT), Cynrychiolydd Defnyddwyr
Karen Chandler (KC), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin

DRAFT

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

## 2. Ymddiheuriadau

Nodwyd y rhain. Nodwyd hefyd fod Maria Battle wedi ymddiswyddo o aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a bod y Cynghorydd Gareth John (CyngGJ) wedi cymryd ei lle. Croesawodd y Cadeirydd ef yn ffurfiol i'r Bwrdd.

## 3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021 a chamau gweithredu

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Rhoddodd MJP y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, a nodwyd y canlynol yn benodol:

Adrodd ar y newidiadau terfynol i'r strwythur llywodraethu a chyflwyno'r cylch gorchwyl diwygiedig i'w ystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Dywedodd MJP fod y cylch gorchwyl diwygiedig wedi'i gynnwys ar yr agenda ac y byddai adroddiad yn nodi'r newidiadau terfynol a argymhellir i'r strwythur llywodraethu rhanbarthol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref.

Cyflwyno rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w chymeradwyo

Wedi'i gynnwys yn nes ymlaen ar yr agenda.

Cyflwyno maniffesto wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w gymeradwyo

Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi o dan Eitem 8 ar yr agenda.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Graddio Trawsnewid

Dywedodd MJP fod cynigion ynghylch defnyddio'r arian ychwanegol hwn wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'u bod yn cael eu datblygu. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yng nghyfarfod mis Hydref.

Darparu dadansoddiad yn ôl sir a math o ofalwyr di-dâl sydd wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd eu bod yn ofalwyr yn ystod pandemig Covid-19

Gwybodaeth i'w dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Mynd ar drywydd cyfleoedd i wahodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn y dyfodol

Dywedodd MJP fod staff o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi rhoi cyflwyniad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ym mis Mehefin ar y fenter 'Cymunedau Oed-gyfeillgar' gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae asiantaethau unigol yn cael cyfle i ymuno â hi drwy ymrwymiad i fabwysiadu dull gweithredu strategol sy'n caniatáu i bobl o bob cefndir, beth bynnag fo'u hoedran, gymryd rhan a bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r ardal y maent yn byw ynddi. Yn y cyfarfod, roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi bwriad mewn egwyddor i ymuno â'r cynllun. Cynhaliwyd trafodaethau dilynol rhwng MJP a Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn i archwilio'r

posibilrwydd y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cymeradwyo unrhyw gais gan Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol ac, o bosibl, partneriaid statudol eraill yn y rhanbarth, a chyfleoedd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei hun ymrwymo'n ffurfiol i'r safonau yn y rhaglen, er na chaniateir i bartneriaethau fod yn llofnodwyr uniongyrchol ar hyn o bryd. Estynnwyd gwahoddiad amhendant i'r Comisiynydd fynychu cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Hydref i drafod hyn ymhellach, gan gyd-fynd â chyflwyniad sydd wedi'i gynllunio ar y Strategaeth Dementia ranbarthol newydd. Croesawyd y dull gweithredu hwn a chytunodd MJP i symud ymlaen â thrafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd.

## 4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch y Gronfa Trawsnewid

Rhoddodd RL ddiweddariad byr, gan gyfeirio at y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Dywedodd wrth yr aelodau fod Bwrdd Rhaglen Gorllewin Cymru Iachach yn parhau i gyfarfod yn fisol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen a datblygu cynlluniau cynaliadwyedd ar gyfer y cyfnod ar ôl mis Mawrth 2022. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi bod yr adroddiad gwerthuso chwarterol gan y gwerthuswyr annibynnol ORS wedi'i ddrafftio ac y byddai'n cael ei ddosbarthu wedi iddo gael ei gwblhau.

Dywedodd JH ei bod wedi ymweld â Llesiant Delta yn ddiweddar i arsylwi ar y rhaglen Connect a'i bod yn annog aelodau eraill i fanteisio ar y cyfle i wneud yr un peth. Nododd hefyd y cyfeiriad yn y diweddariad ar Raglen 3 at raglenni’r Clwstwr a gofynnodd sut roedd rhaglenni HWW a’r Clwstwr yn cael eu halinio'n fwy cyffredinol. Dywedodd MJP fod achos clir dros alinio gweithgareddau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a gwaith y Clwstwr ymhellach ac awgrymodd fod yr Asesiad Poblogaeth yn gyfle i rannu gwybodaeth am yr angen ar draws gwahanol gymunedau a'r amrywiaeth o fentrau sydd ar waith i ddiwallu'r angen hwnnw. Awgrymodd hefyd y dylid cynnwys rhaglenni’r Clwstwr mewn ymarfer mapio a oedd bron â'i gwblhau ac a oedd yn nodi'r holl raglenni a gyllidir ar hyn o bryd ar draws gwahanol gamau'r llwybr gofal a chymorth. Byddai'r gwaith hwn yn allweddol wrth lywio ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid adrodd ar ganlyniad y gwaith hwn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Adroddodd EL fod gwaith yn cael ei wneud ar lefel sirol i sicrhau bod rhaglenni'r Gronfa Trawsnewid, y Gronfa Gofal Integredig a’r Clwstwr yn cael eu halinio, gydag arweinwyr y Clwstwr yn mynychu Grŵp Strategol Sir Benfro Iachach yn y sir honno.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. Diweddariad y Gronfa Gofal Integredig a Rhaglen Gyfalaf 2021-22

Cyflwynodd KN yr eitem, gan gyfeirio at yr adroddiad refeniw wedi'i ddiweddaru a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 30 Gorffennaf. Nodwyd bod y gwariant ar gyfer C1 yn £2,307,687 o'i gymharu â rhagamcan o £2,713,957. Roedd hyn yn dangos y cynnydd sylweddol a wnaed o ran defnyddio cyllid yn amserol, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Croesawyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Buddsoddi Refeniw ar gyfer 2021-22. Nodwyd bod llwyddiant y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol o ran sicrhau £708,000 i gefnogi datblygiad llety diogel i blant ag anghenion cymhleth yn ddatblygiad cadarnhaol. Nodwyd hefyd fod trafodaethau'n mynd

rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen i leihau’r gofynion adrodd mewn cysylltiad ag unrhyw ffrydiau cyllido yn y dyfodol.

Yna cyflwynodd KN raglenni cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig 2021-22, ar gyfer prosiectau mawr a dewisol, i'w cymeradwyo. Roedd y rhaglen Cyfalaf Mawr yn cynnwys prosiectau sydd ar y gweill heb ddyraniad ac y byddai llithriant yn cael ei ddyrannu mewn perthynas â nhw pe bai ar gael yn ystod y flwyddyn. Byddai angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i gynigion manwl cyn i brosiectau symud i'r cam gweithredu, heb unrhyw gymeradwyaeth bellach gan Lywodraeth Cymru yn y cam dilynol hwnnw.

Pwysleisiodd JM y gwaith sylweddol a oedd yn gysylltiedig â rheoli'r rhaglen ar lefel ranbarthol a dywedodd ei fod yn cadeirio Grŵp amlasiantaeth Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y rhanbarth. Gwnaed cynnydd sylweddol dros y 18 mis diwethaf o ran cyflymu rhaglenni, sicrhau'r gwariant mwyaf posibl a gwireddu buddion i ddefnyddwyr ledled y rhanbarth. Roedd hyn wedi lliniaru'r risg y byddai cyllid nas gwariwyd yn cael ei ailgyfeirio i ranbarthau eraill. Nodwyd y gwaith sylweddol a wnaed gan gydweithwyr ar draws yr asiantaethau partner statudol i gyflawni hyn. Dywedodd JM hefyd fod angen cynrychiolaeth briodol o hyd gan uwch-swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar y Grŵp Cyfalaf, er presenoldeb rheolaidd gan swyddogion ariannol, a chytunodd EL i godi hyn yn fewnol gyda'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol, Datblygu a Gweithredol.

Gan droi at werthusiad cenedlaethol y Gronfa Gofal Integredig, dywedodd KN, yn dilyn adolygiad desg o'r 14 prosiect yng ngorllewin Cymru a gynhwyswyd yn y rhaglen, y byddai gwaith maes mewn cysylltiad â dau brosiect (Gofal yn y Cartref a'r prosiect Rhyddhau Gofalwyr) yn cael ei gynnal ym mis Awst. Cynhelir cyfweliadau â rhanddeiliaid craidd fel rhan o'r broses hon.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol adroddiad C1 a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o Gynllun Buddsoddi Refeniw 2021-22. Cymeradwywyd Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf 2021-22.

## 6. Gweithredu NEST

Rhoddodd JG wybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithredu'r fframwaith NEST yr oedd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, ynghyd â phob un arall ledled Cymru, wedi'i ddewis yn Fabwysiadwr Cynnar mewn perthynas ag ef. Atgoffodd yr aelodau fod gwahanol ranbarthau mewn gwahanol leoedd o ran aeddfedrwydd y trefniadau presennol ac, yn unol â hynny, y byddai'r broses weithredu yn cael ei chyflwyno'n raddol ledled Cymru. Roedd dwy elfen allweddol o ran gweithredu; yr elfen gyntaf yw mewnbynnu'r gwasanaethau presennol ym mhob rhanbarth ar blatfform digidol a'r ail yw ymgorffori egwyddorion NEST ar draws y llwybr gofal. Bydd cyfres o weithdai rhyngweithiol yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf i weithio drwy'r gofynion a chefnogi partneriaethau â gweithredu. Roedd y cyntaf o'r rhain, a oedd yn canolbwyntio ar yr elfen ddigidol, wedi digwydd yn gynharach yn yr wythnos. Er bod Llywodraeth Cymru yn wreiddiol o blaid datblygu saith platfform lleol, daeth consensws i'r amlwg yn y cyfarfod mai dull gweithredu gwell fyddai cael un gronfa ddata genedlaethol y byddai gwybodaeth leol yn cael ei mewnbynnu iddi drwy'r partneriaethau rhanbarthol. Roedd Llywodraeth Cymru yn ailystyried yn unol

â hynny a byddai trafodaeth bellach dros yr wythnosau nesaf ynghylch sut y byddai'r elfen hon yn cael ei rheoli.

Pwysleisiodd RJ mai gwerth y fenter fyddai hwyluso canlyniadau cadarnhaol yn y tymor canolig a'r tymor hir i blant a phobl ifanc. Cytunodd MJP, gan ddweud bod angen ystyried y platfform nid fel cyfeiriadur gwasanaethau ond fel offeryn cynllunio strategol i wella'r ddarpariaeth a gwella canlyniadau. Roedd hyn yn cyd-fynd â dyheadau'r Comisiynydd Plant yn ei hadroddiad diweddar, 'Dim Drws Anghywir'.

Croesawodd JH y diweddariad a gofynnodd am adroddiadau pellach ar gynnydd wrth i'r fenter gael ei datblygu.

**7. Diweddariad i Bolisi**

Rhoddodd MJP y wybodaeth ddiweddaraf am dri maes allweddol mewn perthynas â pholisi cenedlaethol.

Gan ddechrau gyda'r Papur Gwyn, 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth', tynnodd sylw at adroddiad Llywodraeth Cymru ar ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, a'r pwyntiau allweddol a grynhowyd yn yr adroddiad esboniadol. Derbyniwyd 155 o ymatebion a oedd yn cynnwys ymateb cyfunol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yng ngorllewin Cymru ac ymatebion unigol gan bartneriaid yn y rhanbarth.

Gan edrych yn benodol ar ymatebion yn ymwneud â swyddogaethau presennol Byrddau Partneriaeth Ranbarthol a'r achos posibl dros ailstrwythuro trefniadau rhanbarthol, adroddodd MJP y cafwyd gwahaniaeth barn ledled Cymru rhwng partneriaid statudol ac anstatudol ar Fyrddau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn; roedd y rhan fwyaf o'r grŵp cyntaf o'r farn y gellid cyflawni’r swyddogaethau o dan y trefniadau presennol ac roedd yr ail grŵp yn credu bod angen diwygio a bod annhegwch o ran statws a dylanwad o fewn y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar hyn o bryd.

Teimlwyd bod diffyg eglurder o hyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei bwriad a'i huchelgeisiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Ranbarthol. Er y rhoddir sylw i hyn ar lefel genedlaethol, mae cyfle i ail-lunio'r trefniadau yng ngorllewin Cymru yn sylfaenol ac i ailosod uchelgais ac amcanion y Bwrdd. Byddai angen i hyn ystyried yr ystod o safbwyntiau gan wahanol aelodau, gan gynnwys cynrychiolwyr y Cabinet, a sicrhau eglurder ynghylch y disgwyliadau priodol. Byddai hyn yn helpu i bennu'r strwythurau a'r modelau gweithredu mwyaf priodol yng ngorllewin Cymru a gallai'r trafodaethau rhanbarthol gyfrannu at y ddadl genedlaethol barhaus. Byddai'r gwaith hwn yn cyd-fynd â chyflwyno cyllid olynol tebygol ac yn gyfle i ailosod y rhaglen ranbarthol. Cytunwyd y gallai'r ymarfer hwn adeiladu ar sesiynau a gynhaliwyd ddiwedd 2020 gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r IEG. Byddai angen iddo adlewyrchu'r bwriad gwreiddiol y cytunwyd arno ar ddechrau'r trefniadau newydd yn 2016 i lunio dull gweithredu sy'n gweithio i orllewin Cymru, a dylai geisio pennu'r hyn y mae gweithio rhanbarthol yn ei olygu, ynghyd â'r hyblygrwydd angenrheidiol wrth gyflawni a chydnabod sofraniaeth sefydliadau partner. Byddai gwledigrwydd yn ystyriaeth allweddol ac yn nod clir yn sgil cydweithio dim ond lle mae gwerth ychwanegol clir i wneud hynny o ran canlyniadau i unigolion a chymunedau. Fel cam cyntaf, byddai papur egwyddorion yn cael ei lunio i'w ystyried gan yr IEG, gan

DRAFT

amlinellu proses hefyd ar gyfer symud ymlaen â'r drafodaeth gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ehangach. Byddai unrhyw newidiadau y cytunir arnynt wedyn yn mynd drwy brosesau llywodraethu ffurfiol asiantaethau partner er mwyn sicrhau eu hymrwymiad llawn.

Gan gyfeirio'n fyr at y papur egwyddorion y cytunwyd arno gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac a gyflwynwyd gan Gadeiryddion y saith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedodd MJP yr addawyd ymateb cyn bo hir. Disgwylid y byddai'r meysydd allweddol sy'n peri pryder yn llywio agenda cyfarfod cyntaf Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar 15 Medi.

Yn olaf, mewn perthynas â chyllid olynol, adroddodd MJP fod cynigion wedi'u cyflwyno gan swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog eu cymeradwyo. Yr arwyddion oedd y byddai'r cyllid hwn am gyfnod y Senedd ac yn cynnwys gofynion penodol o ran arian cyfatebol o gyllidebau craidd i gefnogi prosiectau trawsnewid ac integreiddio. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r cyllid yn lleihau dros y cyfnod, gan fynnu cyfraniad cynyddol gan bartneriaid ar gyfer y prosiectau hynny sy'n dangos effaith a fydd yn golygu eu bod yn cael eu prif ffrydio yn y pen draw. Roedd trafodaethau gyda swyddogion yn parhau ac addawodd MJP y byddai'n rhoi gwybod i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol am gynnydd.

## 8. Adroddiad Blynyddol Gorllewin Cymru 2020-21

Atgoffodd MJP yr aelodau o'r cyfrifoldeb statudol ar Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol i lunio Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd mewn perthynas ag amcanion y cytunwyd arnynt. Fel yn 2020, roedd y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi’r adroddiad, sef 30 Mehefin, wedi'i ymestyn yn y flwyddyn gyfredol ac roedd angen yr adroddiadau erbyn 31 Awst 2021. Diolchodd i gydweithwyr ar draws asiantaethau partner am gyfrannu at yr hyn a ystyriwyd yn grynodeb cryno ond defnyddiol o'r ystod sylweddol o weithgarwch sy'n cael ei ddatblygu yn y rhanbarth. Cymeradwywyd yr adroddiad. Nodwyd y byddai fersiynau Cymraeg a Hawdd eu Darllen hefyd yn cael eu cynhyrchu.

## 9. Y Diweddaraf am yr Asesiad Poblogaeth a'r Adroddiad ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad

Wrth gyfeirio at yr adroddiad diweddaru, adroddodd MJP fod y Tîm Ymchwil a Datblygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi'i gomisiynu i arwain y gwaith o lunio'r Asesiad Poblogaeth a bod hyn yn cael ei ddatblygu yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn y cyfarfod blaenorol. Roedd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus wedi'i gomisiynu i gefnogi'r Adroddiad ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad a fyddai, fel y nodwyd yn flaenorol, yn cael ei lunio ochr yn ochr â'r Asesiad Poblogaeth. Y nod o hyd oedd cwblhau'r ddau adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2021, gan ganiatáu iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a phartneriaid statudol cyn eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2022.

Gan gyfeirio at yr ymrwymiad i lunio maniffesto ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, awgrymodd MJP y dylai hyn adeiladu ar y drafft cynnar a ystyriwyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2021 ond y dylid ei amseru i gynnwys canfyddiadau'r

DRAFT

Asesiad Poblogaeth a'r Adroddiad ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad, yn ogystal â'r trafodaethau arfaethedig ynghylch dyfodol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a threfniadau rhanbarthol ehangach. Cytunwyd ar hyn a nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 10. Cynllun Gaeaf Integredig Gorllewin Cymru 2020-21: Gwerthusiad Cychwynnol

Croesawyd AB i'r cyfarfod a rhoddodd grynodeb o'r adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn ceisio dangos effaith y cynllun gaeaf integredig ar fesurau allweddol ar draws y system, sef hyd arosiadau yn yr ysbyty, derbyniadau ac aildderbyniadau brys, rhyddhau, presenoldeb yn yr adran damweiniau ac achosion brys, a'i pherfformiad, a throsglwyddo o ambiwlansys. Er gwaethaf effaith Covid-19 ar y system (e.e. llai o dderbyniadau cyffredinol), teimlwyd mai'r neges gyffredinol oedd bod effaith gadarnhaol gan weithgarwch y gaeaf. Yn ogystal â mesurau o fewn gofal acíwt, roedd amrywiaeth o fentrau yn y gymuned wedi'u cyflawni drwy'r cynllun a nodwyd y rhain yn y papur. Dywedodd AB hefyd fod pwysau yn y system yn gyffredin drwy'r flwyddyn a bod angen i gynllunio adlewyrchu hyn. Ategwyd y farn honno gan sawl aelod, a nodwyd bod effaith mewnfudo a gwres gormodol ym misoedd yr haf yn enghreifftiau o hyn.

Croesawyd yr adroddiad, er y teimlwyd y byddai gwybodaeth ychwanegol o gymorth. Er enghraifft, awgrymodd JM fod angen asesu effaith amseroedd aros hwy ar gyfer triniaethau cyffredinol yn dilyn Covid-19. Efallai y disgwylir i rywun sy'n aros yn hwy am glun newydd fod yn llai symudol dros y cyfnod hwnnw ac, o ganlyniad, bydd arno angen gofal cymdeithasol.

Roedd amcanestyniadau tymor hwy o boblogaeth sy'n heneiddio yng ngorllewin Cymru, ynghyd â gostyngiad yn nifer y dinasyddion o oedran gweithio, yn ychwanegu at y 'storm berffaith' hon, ac mae angen i effaith ail gartrefi, y gostyngiad mewn mudo rhyngwladol a'r cynnydd disgwyliedig mewn mewnfudo o rannau eraill o'r DU gael ei chymryd o ddifrif.

Yna, aeth y drafodaeth ymlaen at bwysau ehangach ar y system a brofir ar hyn o bryd ar draws y rhanbarth, gan gynnwys darpariaeth gofal cartref annigonol. Roedd y sefyllfa bresennol yn Sir Benfro wedi'i nodi yng nghyfarfod cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gynharach yn y dydd ac roedd cam gweithredu yn sgil hynny i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ystyried y materion.

Pwysleisiodd JG fod llawer o bwysau yn gysylltiedig â'r gweithlu yn hytrach na diffyg syniadau neu ewyllys i wella. Roedd mentrau amrywiol yn cael eu datblygu yn Sir Benfro, yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, i fynd i'r afael â'r pwysau a'r gofynion presennol; roedd y rhain yn cynnwys rolau hyblyg ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, rhaglenni prentisiaeth ar y cyd a'r rhaglen catalyddion cymunedol sy'n cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol a microfusnesau yn y sir i wella'r ddarpariaeth. Cyfeiriodd EL at atebion lleol sy'n cael eu datblygu yn Sir Benfro rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a phwysleisiodd effaith gadarnhaol mentrau sy'n rhan o Raglen 7 Gorllewin Cymru Iachach. Fel y trafodwyd yn flaenorol yn y cyfarfod,

DRAFT

byddai'r angen am atebion lleol, o fewn modelau gofal y cytunwyd arnynt yn gyffredinol, yn allweddol.

Tynnodd JS sylw at y cyfraniad sylweddol a wneir gan ofalwyr di-dâl y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu hebddynt, ond mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y bobl hynny sy'n gofalu am deulu a ffrindiau gartref.

Roedd y diffyg cydraddoldeb presennol o ran cyflogau ac amodau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn broblem, ac ni ddisgwylir i ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cyflog Byw Gwirioneddol ddod i rym tan 2024 ac mae angen cymryd camau cyn hynny. Roedd mater sylfaenol parhaus ynghylch cyllido gofal cymdeithasol ac roedd angen mynd i'r afael ag ef ar lefel genedlaethol.

Cydnabu JH y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud gan yr holl bartneriaid mewn amgylchedd heriol a phwysleisiodd rôl allweddol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol o ran helpu i ddatblygu atebion a monitro cynnydd. Cytunwyd hefyd fod cyfarfodydd rhwng Gweinidogion a Chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol yn gyfle i gyflwyno sylwadau ar y cyd i Lywodraeth Cymru a thynnu sylw at feysydd ar gyfer gweithredu cenedlaethol. Cytunwyd y byddai cynlluniau a diweddariadau perthnasol ar drafodaethau'r IEG yn cael eu rhannu'n rheolaidd gydag aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

## 11. Adroddiadau chwarterol y rhaglen: Grŵp y Rhaglen Gomisiynu

Cyflwynodd KP yr adroddiad diweddaru yn fyr, gan atgoffa'r aelodau bod Grŵp y Rhaglen Gomisiynu yn goruchwylio gweithgarwch yn y maes hwn ac yn adrodd i'r IEG. JM yw noddwr yr IEG a Chadeirydd Grŵp y Rhaglen. Roedd ehangder y gweithgarwch yn adlewyrchu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac awydd cynyddol ymhlith partneriaid i gydweithio yn y maes hwn.

Diolchodd JH i KP am yr adroddiad ac am y camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 12. Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

Dywedodd MJP fod y Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi'i newid fymryn i adlewyrchu newidiadau o ran y gofynion statudol, yn enwedig drwy Ganllawiau Statudol diwygiedig ar gyfer Rhan 9 o'r Ddeddf a oedd yn gofyn am fwy o aelodaeth. Roedd y Cylch Gorchwyl presennol, a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2019, yn nodi'r angen am adolygiad blynyddol ac, yn sgil Covid-19, nid oedd hyn wedi'i gynnal yn 2020. Awgrymodd y dylid mabwysiadu'r fersiwn diwygiedig ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2021-22 a'i adolygu wedyn. Byddai hyn yn galluogi unrhyw newidiadau ar lefel genedlaethol a'r trafodaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt ynghylch rôl y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r blaenoriaethau i gael eu hadlewyrchu yn y fersiwn nesaf.

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl, ar yr amod bod y CyngGJ yn cael ei ychwanegu at y rhestr aelodaeth.

## 13. Blaen-gynllun y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Roedd y Blaen-gynllun wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu addasiadau mewn rhai meysydd gweithgarwch a byddai'n cael ei ddiwygio yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn. Gwahoddodd MJP yr aelodau i gysylltu ag ef gydag unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch eitemau agenda ar gyfer y dyfodol.

## 14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

22 Hydref 2021, 1.00PM

## 15. Unrhyw Fater Arall

*Gwasanaeth Asesu Cof (Dementia) - Cais am gyllid ychwanegol.*

Dywedodd KN fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid ychwanegol i'r rhanbarthau i gefnogi diagnosis o ddementia. Roedd hyn yn ychwanegol at brif ddyraniad y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer dementia. Datblygwyd y cynnig drafft gyda'r bwriad o fynd i'r afael â heriau lleol a byddai'n cefnogi staff asesu cof ychwanegol ar draws y rhanbarth. Cymeradwywyd y drafft gan Lywodraeth Cymru, tra'n disgwyl cymeradwyaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Cytunwyd y dylid cefnogi'r cynnig.

Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol

Rhannodd JH y newyddion gyda'r aelodau y byddai MJP yn gadael y rôl hon yn yr hydref. Roedd posibilrwydd y byddai'n dal i fod yn ei swydd ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Hydref; fodd bynnag, gan nad oedd hyn yn bendant, roedd am gofnodi diolch am ei gyfraniad, a chyfraniad ei dîm, at waith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r bartneriaeth ehangach dros nifer o flynyddoedd. Ategwyd y diolchiadau hyn gan y Cyn-gadeirydd, y CyngJT a JM. Nodwyd y byddai MJP yn parhau i fod yn rhan o 'rwydwaith Cymru' ac roedd yn debygol y byddai cyfleoedd i gydweithio ag ef eto yn y dyfodol.

DRAFT

**Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru: CAMAU GWEITHREDU GORFFENNAF 2021**

| Rhif Adnabod | Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/21/3 | Cyflwyno maniffesto wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w gymeradwyo | MJP | Gorffennaf 2021 | Mawrth 2022 | |
| 07/21/1 | Symud ymlaen â thrafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch dod i'r cyfarfod ym mis Hydref | MJP | Medi 2021 | Gohiriwyd tan gyfarfod Ionawr 2022 | |
| 07/21/2 | Dosbarthu Adroddiad Gwerthuso ORS ar raglen HWW | MJP | Awst 2021 | Cwblhawyd | |
| 07/21/3 | Rhannu gwaith mapio prosiectau a gyllidir yn y cyfarfod nesaf | MJP | Hydref 2021 | I'w ddosbarthu | |
| 07/21/4 | Nodi uwch-gynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Grŵp Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig | EL | Awst 2021 | | |
| 07/21/5 | Drafftio egwyddorion a phapur proses ar gyfer adolygiad partneriaeth ranbarthol | MJP | Medi 2021 | Papur wedi'i ddrafftio i'w ystyried yn gyntaf gan yr IEG | |
| 07/21/6 | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ynghylch cyllid olynol | MJP | O Awst 2021 | Ar yr agenda | |
| 07/21/7 | Pwysau ar y system - cynlluniau a diweddariadau i'w rhoi i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol | IEG | O Awst 2021 | Ar yr agenda | |

DRAFT